

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Tachwedd 2021

Crynodeb gweithredol	3
1. Cyflwyniad	6
2. Rhagolygon economaidd y DU a rhanbarthol	7
3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru: Yr amodau newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid	15
4. Y ddarpariaeth o gyllid i BBaCh a chost cyllid	22
5. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru	27
6. Casgliadau	31
7. Atodiad	32

Max Munday, Annette Roberts, Nikos Kapitsinis

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

Am wybodaeth bellach neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil,
e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r SYG wedi cynghori ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol
am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynir ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ellice Way, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau cyntaf BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu nad yw'r un o'r endidau grŵp yn gallu derbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Gellir gweld siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc yn bancdatblygu.cymru.

- Mae CDG y DU, y farchnad lafur a mynegeion buddsoddi busnes i gyd wedi gwella yn Ch2 2021, wrth i'r economi gael ei ailagor. Fodd bynnag, mae pwysau chwyddiant, problemau sydd a wnelo'r gadwyn gyflenwi a phrinder yn y farchnad lafur yn debygol o effeithio ar ragolygon busnes yn ystod ail hanner 2021 a thu hwnt.
- Mae'r dyfodol ôl-bandemig yn ymddangos fel petai'n heriol i'r BBaCh llai yng Nghymru, sy'n wynebu risgiau o ansolfedd, cronfeydd arian parod isel ac yna cynnydd yn y galw am gredyd. Mae cyfran y BBaCh o Gymru sy'n defnyddio cyllid allanol wedi cynyddu, gyda llawer yn dechrau benthyca yn y cyfnod pandemig.
- Buddsoddodd Banc Datblygu Cymru oddeutu £21 miliwn yn 2021/22 Ch1, gan greu 280 o swyddi a diogelu tua 160 o swyddi.

Mae dechrau blwyddyn ariannol 2021/22 wedi'i nodi gan ymdrechion byd-eang i ddod â phandemig Covid-19 i ben, ac i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig. Amharodd pandemig Covid-19 a mesurau'r cyfnod clo a mesurau lliniaru cysylltiedig ar fywyd economaidd ac arweiniodd at grebachiad economaidd digynsail. Mae setiau data ledled y DU yn dangos gwelliannau ar gyfer chwarter cyntaf 2021/22, gan arwain at ragolygon mwy cadarnhaol, ond mae'r rhain yn gyson is na lefelau cyn-bandemig.

Amlygodd yr Adroddiad Chwarterol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 fod y Gronfa Ariannol Ryngwladol sef yr IMF wedi rhagweld crebachiad o 3% mewn Cynnyrch Domestig Gros (CDG) byd-eang yn 2020 gyda'i ffigurau bellach yn awgrymu iddo gyrraedd 3.6% mewn gwirionedd, sy'n ddirywiad dyfnach na'r hyn welwyd yn argyfwng ariannol 2008/09. Mae'r IMF bellach yn rhagweld adferiad byd-eang sylweddol yn 2021 (twf CDG blynyddol o 6%, yn agos at ragfynegiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd sef yr OECD o 5.8%), a thwf pellach yn 2022 (4.9%).

Mae rhagolygon yr IMF yn adlewyrchu'r gwelliant cymharol mewn canlyniadau iechyd mewn llawer o daleithiau cyfoethocach yn nhri chwarter cyntaf 2021, er bod yr effeithiau ar economïau ac yn enwedig marchnadoedd llafur yn fwy parhaus. Er bod y gyfradd ddiweithdra ar gyfartaledd yng ngwledydd yr OECD wedi gostwng o 8.8% ym mis Ebrill 2020 i 6.6% ym mis Mai 2021, mae wyth miliwn yn fwy o bobl ddi-waith a 14 miliwn yn fwy o bobl anactif na chyn dechrau'r pandemig yn nhaleithiau'r OECD. Er gwaethaf yr adlam cryf, ni ragwelir y bydd lefelau cyflogaeth cyn-bandemig yn gwella cyn 2023. Mae'r OECD yn rhagamcanu cyfradd ddiweithdra o 6.5% yn 2021.

Mae'r Adroddiad Chwarterol hwn yn datgelu bod CDG y DU wedi cynyddu 4.8% yn y chwarter i Ch2 2021, gan adlewyrchu bod cyfyngiadau Covid-19 wedi cael eu llacio. Fodd bynnag, mae lefelau CDG y DU yn dal i fod yn is na'r chwarter cyn-bandemig diwethaf (Ch4 2019). **Mae Banc Lloegr yn rhagweld y bydd CDG yn codi 7.25% yn 2021, yn debyg i ragfynegiad Mai 2021. Mae'r amcangyfrifon CDG chwarterol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru ar gyfer Ch4 2020 yn dangos twf chwarterol o 0.9%, yn dilyn cynnydd o 14.4% yn y chwarter i Ch3 2020.**

Crynodeb gweithredol

Mae arwyddion o adferiad y farchnad lafur wedi dod yn fwy amlwg. **Gostyngodd cyfradd ddiweithdra'r DU o 4.9% yn Ch1 2021 i 4.7% yn Ch2 2021, tra yng Nghymru gostyngodd y gyfradd ddiweithdra o 4.4% yn Ch1 2021 i 4.1% yn Ch2 2021. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn rhagweld cynnydd yng nghyfradd ddiweithdra Cymru o 4.1% yn 2020/21 i 4.9% yn 2021/22 a 5.8% yn 2022/23.** Er y disgwyliwyd gweld effeithiau go iawn sioc y pandemig ar y farchnad lafur ar ôl diwedd y cynllun seibiant swyddi, mae dangosyddion cynnar yn dangos cyfraddau uchel o gyflogaeth cyflogres yng Nghymru (o gymharu â lefelau cyn-bandemig) ac roedd niferoedd y diswyddiadau a gyhoeddwyd yn gymharol isel. **Mae'r lefelau uchaf erioed o swyddi gwag ledled y DU, ynghyd â chostau mewnbwn cynyddol yn debygol o rwystro rhagolygon busnes yn ail hanner 2021 a thu hwnt.** Yn dilyn crebachiad o 2.3% yn Ch1 2021, cynyddodd buddsoddiad busnes y DU 2.4% yn Ch2 2021, gan aros yn fwy na 15% yn is na lefelau cyn-bandemig yn Ch4 2019.

Mae ystadegau arbrofol chwarterol y SYG ar ddemograffeg busnes yn tynnu sylw at y ffaiith bod nifer y marwolaethau busnes yng Nghymru yn Ch2 2020 yn uwch na genedigaethau busnes. **Mae'r gymhariaeth flynyddol yn datgelu arwyddion o ddeinameg ymhlith y boblogaeth fusnes gyda chynnydd mewn genedigaethau busnes a marwolaethau hefyd. Cynyddodd genedigaethau busnes 28% a chynyddodd marwolaethau busnes yng Nghymru 59% yn y flwyddyn i Ch2 2021, tra cofnododd y DU newid tebyg mewn genedigaethau ond cynnydd llai mewn marwolaethau busnes (44%).**

Hyder BBaCh Cymru yn aros yr un fath ond yn gadarnhaol

Gwelodd bod hyder BBaCh yng Nghymru'n ddigyfnewid rhwng Ch1 2021 a Ch2 2021 (+34), dyma'r trydydd uchaf ledled y DU.

Nododd yr Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (AEAB) am y cyfnod rhwng 9 a 22 Awst 2021 fod 99.1% o'r cwmnïau a arolygwyd yng Nghymru yn parhau i fasnachu, y gyfradd uchaf ar draws rhanbarthau'r DU. Nododd tua 27.5% o'r busnesau a ymatebodd yng Nghymru gwmp mewn trosiant am y pythefnos cyn yr Arolwg, y pedwerydd uchaf o unrhyw ranbarth arall yn y DU. **Ymhlith cwmnïau o Gymru nad oeddent wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol, nododd bron i 37% na fyddai eu cronfeydd arian parod yn para mwy na chwe mis.** Er y dylid bod yn ofalus wrth gymharu cymariaethau'r gwahanol rowndiau o AEAB / BICS SYG, gan nad yw'r samplau ym mhob ton o'r arolwg yr un peth, nododd arolwg AEAB / BICS am y cyfnod 8 i 21 Chwefror 2021 fod 48% o gwmnïau a arolygwyd yng Nghymru naill ai unrhyw gronfeydd wrth gefn na llif arian ar ôl am hyd at chwe mis o weithrediadau.

Nododd yr Arolwg Busnesau Bach Hydredol: Cyflogwyr Menter BBaCh (BBaChau) 2020 fod bron i un o bob tri pherchennog BBaCh yn y DU wedi nodi lefelau cyflogaeth is o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nododd mwy na hanner cyflogwyr BBaCh Cymru (54%) gwmp yn y trosiant blynyddol yn y 12 mis blaenorol, ond roedd hyn yn is nag yn Lloegr a'r Alban. Roedd tua phedwar o bob deg ymatebydd o Gymru yn disgwyl cofnodi gwerthiant cynyddol yn ystod y 12 mis nesaf, tra bod bron i wyth o bob deg yn disgwyl cynyddu trosiant yn y tair blynedd ganlynol. **Nodwyd pandemig Covid-19 fel y prif rwystr i dwf yn 2020 yng Nghymru (59% o fusnesau).** Ymhlith y rhwystrau mawr eraill i dwf yng Nghymru roedd recriwtio a sgiliau staff, ynghyd â chystadleuaeth yn y farchnad. Fe wnaeth tua 48% o gyflogwyr BBaCh yng Nghymru leihau eu gweithrediadau, tra bod y rhan fwyaf o gyflogwyr BBaCh Cymru wedi gweithredu mewn perthynas â'u gweithluoedd yn ystod y pandemig gyda 68% yn rhoi staff ar y cynllun seibiant swyddi, 52% wedi lleihau oriau gwaith staff, a 32% yn darparu cyfleusterau ar gyfer gweithio o bell.

Crynodeb gweithredol

Mae deg mis bellach wedi mynd heibio ers diwedd cyfnod pontio Brexit a gweithrediad rheolau masnach newydd rhwng y DU a'r UE.

Cynyddodd cyfanswm mewnfurion nwyddau o wledydd yr UE a gwledydd y tu allan i'r UE yn y chwarter i Ch2 2021, tra bod cyfanswm allforion nwyddau hefyd wedi cofnodi newid chwarterol cadarnhaol, wedi'i yrru bron yn gyfan gwbl trwy gynyddu allforion i wledydd yr UE. Yn ôl data masnach nwyddau rhyngwladol Cymru, roedd gwerth y nwyddau a allforiwyd o Gymru yn £13.5 biliwn ar gyfer y flwyddyn o fis Mehefin 2021, cwmp o 13% o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021, bu gostyngiad o bron i 12% yng ngwerth allforion o Gymru i'r UE a gostyngiad o bron i 15% mewn allforion y tu allan i'r UE. Gwerth y nwyddau a fewnforiwyd i Gymru oedd £14.4 biliwn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, i lawr 10.5% o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020. Nododd yr *Arolwg Busnesau Bach Hydredol: Cyflogwyr BBaCh 2020* fod yr ymadawiad y DU o'r UE wedi cael ei grybwyll fel rhwystr i dwf gan 23% o gyflogwyr BBaCh y DU.

Nododd Monitor Cyllid BBaCh y BVA BDRC 2021 Ch2 fod tua 20% o BBaCh y DU yn defnyddio mwy o gyllid nag yn y cyfnod cyn-bandemig, gyda'r gyfran yng Nghymru yn llawer uwch (27%, yr ail uchaf ledled y DU). Dechreuodd tua 11% o'r BBaCh a arolygwyd yng Nghymru fenthyca yn y pandemig.

Yn ôl *Ymchwil Cyfryngwyr BBaCh 2021* gan Fanc Busnes Prydain, nododd 62% o BBaCh Cymru eu bod yn ceisio cymorth cyllid allanol gan gynnwys cyllid grant y llywodraeth yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gan ddatgelu bylchau posibl mewn cyllid ecwiti yn y farchnad, nododd 70% o'r BBaCh a arolygwyd yng Nghymru fod y galw am gyllid yn fwy na'r cyflenwad cyllid (o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 59%). Canfu *Ymchwil Cyfryngwyr BBaCh 2021* mai diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael, mynediad at gyflenwad cyllid a gwrthwynebiad i ymgymryd â chyllid oedd y rhwystrau mwyaf sylweddol i alw BBaCh yng Nghymru.

Mae darlun risg credyd BBaCh Cymru wedi gwella ymhellach, yn dilyn y dystiolaeth o Adroddiadau Chwarterol blaenorol. **Parhaodd y gyfran o BBaCh Cymru yn y grŵp Risg Uchel i ostwng yng nghanol y broses o ail agor yr economi, gan ostwng o 4.5% ym mis Mai i 4.2% ym mis Awst 2021, ond gyda'r cyfrannau o BBaCh yn y categorïau Gofalus, Cyffredin, Cyson a Diogel heb newid fawr ddim dros yr un cyfnod.**

Yn chwarter cyntaf 2021/22, fe wnaeth Banc Datblygu Cymru gyfanswm o 213 o drafodion buddsoddi wedi'u cysylltu â 112 bargaen, i lawr o 225 a 129 yn y drefn honno yn Ch4 2020/21. **Daeth cyfanswm gwerth y bargeinion newydd a wnaed gan Fanc Datblygu Cymru yn ystod Ch1 2021/22 bron i £20 miliwn, i lawr o £26.6 miliwn yn Ch4 2020/21. Creodd buddsoddiadau yn Ch2 2021/22 282 o swyddi a diogelu 161 o swyddi.**

Dyma Adroddiad Chwarterol cyntaf Dirnad Economi Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r Adroddiad Chwarterol hwn yn nodi dechrau pedwaredd flwyddyn prosiect Dirnad Economi Cymru ac fe'i cyhoeddir ar adeg pan fo ymdrechion byd-eang parhaus i ddod â phandemig Covid-19 i ben yn digwydd a cheisir mynd i'r afael â'r effeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig. Mae'r ymdrechion hyn yn seiliedig ar gyflwyno brechiadau, a pholisïau i fynd i'r afael â'r goblygiadau economaidd sylweddol sy'n deillio o'r mesurau lliniaru a'r cyfnodau clo a wnaeth darfu ar weithgaredd economaidd a chymdeithasol. Mae'r rhagolygon ar gyfer adferiad economaidd yn adlewyrchu'r gwelliant cymharol mewn canlyniadau iechyd mewn llawer o daleithiau datblygedig yn nhri chwarter cyntaf 2021, er bod yr effeithiau ar economïau a marchnadoedd llafur yn debygol o fod yn fwy parhaus.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y DU a Chymru y mae BBaCh Cymru yn gweithredu ynddo ac yn dadansoddi effaith cefnogaeth y Llywodraeth ar gwmnïau. Yna mae'r adroddiad yn archwilio'r ffactorau sy'n ymwneud â'r galw, y gyflenwad o a chost cyllid ar gyfer mentrau bach a chanolig (BBaCh).

Bwriad yr adrannau hyn yw deall:

- Ffactorau macro-economaidd sy'n llunio'r galw am gyllid BBaCh yng Nghymru.
- Tueddiadau mewn twf BBaCh, busnesau newydd a rhagolygon goroesi busnes yng Nghymru.
- Y cyflenwad o gyllid i BBaCh yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthycia / buddsoddi i mewn i BBaCh yng Nghymru.

Mae Adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun ffactorau sy'n effeithio ar y galw a'r cyflenwad cyllid i BBaCh yng Nghymru.

Mae'r adran hon yn archwilio:

- Y defnydd a wneir o gronfeydd Banc Datblygu Cymru i ariannu BBaCh Cymru, a pha fathau o fentrau a diwydiannau sy'n cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol buddsoddiad BBaCh o amgylch Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o gam-gymhariad amserol o ddata yn yr adroddiad hwn. Gall data economaidd sy'n ymwneud ag effeithiau ac ymyriadau Covid-19 newid yn gyflym. Felly mae sefydlu darlun economaidd amserol o effeithiau ar draws tirwedd BBaCh Cymru yn arbennig o heriol.

- Yn dilyn y crebachiad economaidd blynyddol mwyaf yn y DU a gofnodwyd yn 2020, tyfodd economi'r DU yn y chwarter i Ch2 2021. Fodd bynnag, mae CDG y DU yn dal i fod yn is na lefelau cyn-bandemig.
- Daeth arwyddion o adferiad ym marchnadoedd llafur y DU yn gryfach yn ystod ail chwarter 2021. Er bod diwedd y cynllun seibiant swyddi yn her i rai cwmnïau, mae'r data'n dangos bod yr hysbysiadau o ddiswyddiadau yn y DU ym mis Medi yn gymharol isel, tra bod nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru ym mis Awst 2021 ychydig yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig. Roedd y nifer uchaf erioed o swyddi gwag ledled y DU yn y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst 2021.
- Er bod rhai dangosyddion yn awgrymu gwell rhagolygon economaidd ar gyfer economïau'r DU a Chymru yn ail hanner 2021, mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch rhagolygon economaidd, a gyda phroblemau cadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant yn dod yn fwy arwyddocaol.

Mae dechrau blwyddyn ariannol 2021/22 wedi'i nodi gan yr ymdrechion byd-eang i ddod â phandemig Covid-19 i ben, ac i fynd i'r afael â'r effeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig. Mae'r ymdrechion hyn yn seiliedig ar gyflwyno brechiadau, a pholisiâu i fynd i'r afael â'r goblygiadau economaidd sylweddol sy'n deillio o'r mesurau lliniaru a'r cyfnodau clo a wnaeth darfu ar weithgaredd economaidd a chymdeithasol.

Yn dilyn y crebachiad economaidd byd-eang yn 2020 (gostyngiad o 3.6% yn y Cynnyrch Domestig Gros (CDG), roedd rhagolygon yr IMF¹ yn nodi y disgwylid adferiad sylweddol yn yr economi fyd-eang yn 2021 (twf CDG blynyddol o 6%, gyda hyn yn agos at ragfynegiad yr OECD o 5.8%) a thwf pellach yn 2022 (4.9%).

Mae'r rhagolygon ar gyfer twf yn adlewyrchu'r gwelliant cymharol mewn canlyniadau iechyd mewn llawer o daleithiau datblygedig yn nhri chwarter cyntaf 2021, er bod yr effeithiau ar economïau ac yn enwedig marchnadoedd llafur yn fwy parhaus. Er bod y gyfradd ddiweithdra ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD wedi gostwng o 8.8% ym mis Ebrill 2020 i 6.6% ym mis Mai 2021, mae wyth miliwn yn fwy o bobl ddi-waith a 14 miliwn yn fwy o bobl anactif na chyn dechrau'r pandemig.² Er gwaethaf yr adlam cryf, ni ragwelir y bydd lefelau cyflogaeth cyn-bandemig yn cael eu cyrraedd cyn 2023, gyda'r OECD yn rhagweld cyfradd ddiweithdra o 6.5% ar gyfer 2021.

¹ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2021/07/27/world-economic-outlook-update-july-2021>

² <https://stats.oecd.org/index.aspx?DataSetCode=EO>

Mae chwyddiant cynyddol wedi dod yn fater allweddol mewn llawer o economïau oherwydd yr ymchwydd yn y galw wrth i economïau ailagor a chyda phwysau ar gostau cludo a deunyddiau crai. Mae'r OECD yn rhagweld cynnydd blynyddol o 3.6% mewn chwyddiant prisiau defnyddwyr yn yr UDA, 2.3% yn y DU a 2.1% yn ardal yr Ewro yn 2021.³ Cofnododd yr SYG gynnydd o 3.2% ym mynegai prisiau defnyddwyr y DU yn y flwyddyn hyd at Awst 2021, i fyny o 2% ym mis Gorffennaf.⁴ Dyma'r cynnydd mwyaf a gofnodwyd erioed yn y gyfres gyfradd chwyddiant 12 mis hon, er bod y SYG yn nodi'r cysylltiad hwn yn rhannol â'r prisiau gostyngedig mewn caffis a bwytaï yn y mis Awst blaenorol (o'r cynllun Bwyta Allan i Helpu

Allan) a ostyngodd y gyfradd sylfaenol ar gyfer y cyfrifiad wrth ddefnyddio'r cyfnod penodol hwn o 12 mis. Felly ystyrir bod hyn yn debygol o fod yn effaith dros dro. Fodd bynnag, mae Banc Lloegr wedi awgrymu hynny 'Disgwylir i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) godi ymhellach yn y tymor agos, i ychydig yn uwch na 4% yn Ch4 2021, yn bennaf oherwydd datblygiadau ym mhrisiau ynni a nwyddau.'⁵ Mae lefelau uchel o ansicrwydd o hyd ynghylch rhagolygon economaidd, ac mae'r IMF yn tynnu sylw at y gwahaniaeth sylweddol mewn rhagolygon rhwng yr economïau mwyaf datblygedig a'r economïau sy'n datblygu ac sy'n datblygu, sy'n gysylltiedig i raddau helaeth â mynediad gwahanol at frechlynnau.

Cynyddodd CDG y DU yn y chwarter i Ch2 2021.

Mae ffigurau CDG yn datgelu adferiad rhannol o economi'r DU, ond nad yw eto wedi dychwelyd i'r lefelau cyn-bandemig. Yn dilyn crebachiad economaidd blynyddol mwyaf y DU ar gofnod (dirywiad o 9.9% yn 2020) a chwymp CDG o 1.5% yn Ch1 2021, tyfodd economi'r DU 4.8% yn y chwarter i 2021 Ch2, gan adlewyrchu llacio cyfyngiadau Covid-19. Fodd bynnag, mae CDG y DU yn dal i fod 4.4% yn is na'r chwarter cyn-bandemig diwethaf (Ch4 2019).⁶ Cafodd perfformiad gwell CDG y DU yn Ch2 2021 ei ail adrodd yn Yr Almaen, Sbaen, Ffrainc, UDA a'r Iseldiroedd, gyda'r DU yn cofnodi'r twf cryfaf.

Mewn cyferbyniad llwyr â'r cwmp chwarterol yn Ch1 2021 (dirywiad o 4.6%), cofnododd defnydd cartrefi dwf cadarnhaol o 7.3% yn 2021 Ch2, wedi'i yrru gan lacio cyfyngiadau coronafeirws. Fodd bynnag, mae defnydd cartrefi o hyd 7% yn is nag yn 2019 Ch4. Yn dilyn patrwm tebyg, roedd defnydd y llywodraeth yn hanfodol ar gyfer adferiad CDG chwarterol, gan dyfu 6.1%, a ysgogwyd hyn yn bennaf gan ddefnydd addysg a gwasanaethau ieuchyd.

³ www.oecd.org/economic-outlook

⁴ www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/latest

⁵ www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2021/sepember-2021

⁶ www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/apriltjune2021

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU yn Ch2 2021.

Cofnodwyd twf buddsoddiad ymhlith busnesau'r DU, er bod ansicrwydd yn parhau i fod yn uchel. Yn dilyn crebachiad o 2.3% yn Ch1 2021, cynyddodd buddsoddiad busnes y DU 2.4% yn Ch2 2021, er iddo aros dros 15% yn is na lefelau cyn-bandemig Ch4 2019. Yn ôl Gwneuthurwr Penderfyniadau Misol Banc Lloegr,⁷ gostyngodd ymatebwyr a oedd yn gweld lefel yr ansicrwydd economaidd yn uchel o 68% ym mis Rhagfyr 2020 i 57% ym mis Chwefror ac i 50% ym mis Mehefin 2021, sy'n nodi'r lefel isaf ers mis

Chwefror 2020. Covid-19 oedd y ffynhonnell ansicrwydd fwyaf i 25% o'r ymatebwyr, gan ddisgyn o 32% o'r ymatebwyr ym mis Mai 2021. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd economaidd yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Er bod Banc Lloegr wedi gwella ei ragolygon twf blynyddol ym muddsoddiad busnes y DU o 4% i 7% ar gyfer 2021 yn yr Adroddiad Polisi Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021, is-raddiodd ei ragamcanion o 7% i 3% yn yr Adroddiad Polisi Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021.⁸

Tyfodd allbwn ym mhob prif sector yn yr ail chwarter.

Yn dilyn crebachiad o 2.1% yn 2021 Ch1, cynyddodd allbwn yng ngwasanaethau'r DU 5.7% yn y chwarter i Ch2 2021, megis 3.5% yn is na lefel Ch4 cyn y cyfnod clo 2019. Y cyfranwyr allweddol oedd llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd (twf o 87%), yn dilyn llacio cyfyngiadau Covid-19, addysg (19.4%) yn ogystal â masnach gyfanwerthu a manwerthu (12.8%).

Cofnododd allbwn cynhyrchu dwf chwarterol cadarnhaol hefyd yn Ch2 2021, er ei fod yn wannach na gwasanaethau (0.5%, yn weddill 3.5% yn is na'r lefelau cyn-bandemig). Gwelodd maes gwaith adeiladu dwf cadarnhaol yn yr allbwn yn y chwarter i Ch2 2021 (3.3%), yn dilyn cynnydd chwarterol o 2.6% yn Ch1 2021. Mae'r twf yn Ch2 2021 yn adlewyrchu cynnydd mewn gwaith newydd (3.7%). Mae adeiladu bron wedi gwella i lefelau cyn-bandemig, sef 0.6% yn is na'r allbwn yn Ch4 2019.

⁷ www.bankofengland.co.uk/decision-maker-panel/2021/june-2021

⁸ www.bankofengland.co.uk/-/media/boe/files/monetary-policy-report/2021/august/monetary-policy-report-august-2021.pdf


Cynyddodd CDG Cymru yn Ch4 2020.

Mae ffigurau CDG wedi bod ychydig yn well yng Nghymru nag yn economi'r DU ers dechrau'r pandemig. Mae effeithiau Covid-19 yn cael eu dal gan amcangyfrifon CDG chwarterol (arbrofol) ar gyfer Cymru.⁹ Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos twf chwarterol o 0.9% ar gyfer Ch4 2020, yn dilyn cynnydd o 14.4% yn y chwarter i Ch3 2020 a chrebachiad o 15.2% yn

Ch2 2020.¹⁰ Mae Ffigur 1 yn dangos proffil tebyg yn fras o dwf CDG y DU a Chymru yn y chwarteri diwethaf. Cyn y pandemig roedd economi Cymru ar ei hól hi ychydig y tu ôl i'r DU o ran twf chwarterol CDG, fodd bynnag rhwng Ch1 2020, a 2020 roedd twf chwarterol Ch3 mewn CDG ychydig yn uwch na thwf y DU, gyda chyfraddau twf yn cydgyfeirio yn chwarter olaf 2020.

Ffigur 1.

Newid canrannol chwarterol CDG



Ffynhonnell: [SYG, 2021](#)

⁹ Dylai'r ffigurau hyn gael eu trin yn ofalus oherwydd anwadalnwydd posibl y data.

¹⁰ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpukregionsandcountries/octobertodecember2020>

Diweithdra'r DU yn disgyn yn Ch2 2021.

Mae cynlluniau cymorth ariannol Covid-19 Llywodraeth y DU wedi cefnogi cyflogaeth yn sylweddol, gan atal dirywiad mawr yn y farchnad lafur genedlaethol.¹¹ Yn ôl Arolwg y Llafurlu,¹² mae arwyddion adferiad marchnadoedd llafur wedi dod yn gryfach yn ystod ail chwarter 2021. Cynyddodd cyfradd gyflogaeth y DU o 74.8% yn 2021 Ch1 i 75.1% yn Ch2 2021, a gostyngodd y gyfradd ddiweithdra o 4.9% i 4.7%.¹³ Mae cyfraddau diswyddo wedi bod yn gostwng ers rhan olaf 2020, ac am y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2021, gostyngodd y gyfradd ddiswyddo i 3.6 fesul 1,000 o weithwyr, ychydig yn is na'r lefel cyn-bandemig.¹⁴ Rhagwelwyd yr heriau gwirioneddol i o ran cadernid y farchnad lafur ar ôl diwedd y cynllun cadw swyddi, a oedd wedi cael ei ymestyn hyd ddiwedd Medi 2021. Fodd bynnag, mae mewnwediadau cynnar o ystadegau'r Gwasanaeth Ansoffedd yn dangos bod yr hysbysiadau am ddiswyddiadau ym mis Medi oddeutu 14,000, yr ail isaf ers Ionawr 2020 a llai nag un rhan o bump o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn cyn hynny.¹⁵

Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 74.2% yn Ch2 2021, yn is na chyfartaledd y DU o 75.1%. Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn Ch2 2021 ychydig yn is na lefelau Ch4 cyn-bandemig 2019 o 74.4%. Y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru oedd 4.1% yn Ch2 2021, islaw cyfartaledd y DU, sef 4.7%.¹⁶ Yn ôl Gwybodaeth Talu Wrth Ennill Amser Real, roedd nifer y gweithwyr cyflogres yng Nghymru ym mis Awst 2021 yn debyg i lefelau cyn-bandemig (1.27 miliwn, o gymharu â 1.26 miliwn ym mis Chwefror 2020).¹⁷ Yn ogystal, am y cyfnod rhwng Mehefin ac Awst 2021, roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn fwy na 1 miliwn am y tro cyntaf ers i'r cofnodion ddechrau yn 2001, ac roeddent bron i 250,000 yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig. O'i gymharu â'r chwarter blaenorol, cynyddodd swyddi gwag ar draws holl ddiwydiannau'r DU a bandiau maint cwmnïau. Roedd trafndiaeth a storio, a llety a bwyd ymhlith y sectorau â'r cyfraddau twf chwarterol uchaf o ran swyddi gwag.¹⁸ Mae prinder llafur ar draws nifer o sectorau yn debygol o rwystro'r rhagolygon economaidd i lawer o BBaCh yng Nghymru.

¹¹ www.beaurehurst.com/blog/government-covid-business-support-analysis

¹² www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/latest

¹³ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/impactofreweightingonlabourforcesurveykeyindicatorsuk/2020

¹⁴ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/redundancies/timeseries/beir/lms

¹⁵ www.gov.uk/government/news/quarter-of-million-left-furlough-in-august-as-redundancies-hit-seven-year-low

¹⁶ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/august2021

¹⁷ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted

¹⁸ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/september2021


Gostyngiad yn nifer y rhai oedd yn hawlio budd-dal diweithdra ym mis Gorffennaf 2021.

Cynyddodd y cyfrif o ran nifer yr hawlwr budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra'r DU o 2.59 miliwn ym mis Ionawr i 2.65 miliwn ym mis Ebrill, ond yna gostyngodd i 2.26 miliwn ym mis Gorffennaf 2021.¹⁹ Gostyngodd hawlwr budd-daliadau'r DU 0.4 miliwn yn y flwyddyn hyd at Orffennaf 2021. Ym mis Gorffennaf 2021, hawliodd 93,175 o bobl yng Nghymru fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra (hafal i 4.8% o'r boblogaeth oedran gweithio), i lawr o 110,400 ym mis Ebrill 2021 a 109,000 ym mis Ionawr 2021. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer

Gorffennaf 2021, yr ardaloedd yng Nghymru sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth mewn oedran gweithio a hawliodd fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra oedd Casnewydd (6.8%), Blaenau Gwent (5.8%) a Chaerdydd (5.5%), a chyda'r gyfran isaf, Powys (3.5%), Ceredigion (3.4%) a Mynwy (3.3%) (Ffigur 2). Mae angen bod yn ofalus mewn unrhyw ddehongliadau yma, gan na ellir sefydlu'r duedd sylfaenol eto gyda'r cynllun seibiant swyddi yn dod i ben ddim ond yn ddiweddar.

Ffigur 2.

Cyfran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra fesul awdurdodau lleol Cymru



Ffynhonnell: [SYG, 2021](#)

¹⁹ www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental

Dirywiad mawr mewn swyddi ar y cynllun seibiant.

Yng nghanol y broses o ail agor yr economi, gostyngodd nifer y swyddi ar y cynllun seibiant yn y DU yn sylweddol. Gostyngodd swyddi ar y cynllun seibiant y DU o oddeutu pum miliwn ym mis Ionawr i 4.3 miliwn ar ddiwedd mis Ebrill ac ymhellach i 1.9 miliwn erbyn diwedd mis Mehefin 2021. Mae data dros dro yn awgrymu bod nifer y swyddi yn y DU ar y cynllun seibiant swyddi oddeutu 1.3 miliwn ar ddiwedd mis Awst.²⁰ Roedd bron i 11.7 miliwn o swyddi wedi cael eu cefnogi i gyd trwy gyfrwng y Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws erbyn canol mis Medi 2021, gyda chyfanswm gwerth cronol hawliadau'r Cynllun Cadw Swyddi yn y DU yn codi o £64 biliwn ym mis Mai i £69.3 biliwn erbyn canol mis Medi 2021.

Roedd gan Gymru un o'r gostyngiadau mwyaf mewn swyddi ar y cynllun seibiant swyddi ledled

y DU. Gostyngodd y cyflogau a gafodd eu rhoi ar y cynllun seibiant swyddi o 183,400 ddiwedd mis Ionawr i 134,700 ddiwedd mis Ebrill ac ymhellach i 36,000 ar 31 Awst 2021, sy'n hafal i oddeutu 4% o gyfanswm y swyddi yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer y cynllun seibiant swyddi (i lawr o 10% ym mis Ebrill). Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli ffigurau'r cynllun seibiant swyddi lleol a rhanbarthol oherwydd eu bod yn seiliedig ar wybodaeth cyfeiriad preswyl y gweithwyr, ac felly nid ydynt yn cipio effeithiau cymudo h.y. gallai gweithle gweithiwr fod mewn rhanbarth gwahanol. Mae Ffigur 3 yn dangos gostyngiad yn y gyfradd derbyn y cynllun seibiant swyddi o ym mhob awdurdod lleol rhwng Ebrill ac Awst 2021, gyda chyfraddau derbyn ym mhob ardal awdurdod lleol yn amrywio o 3% i 4% erbyn diwedd mis Awst.

Ffigur 3.

Cyfradd manteisio ar Gynllun Seibiant Swyddi ar draws awdurdodau lleol Cymru, ar 30 Ebrill a 30 Gorffennaf 2021 (% y gyflogaeth gymwys)



Ffynhonnell: [Llywodraeth y DU](#)

²⁰ www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-7-october-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-7-october-2021

Rhagolygon economi'r DU a Chymru.

Mae Banc Lloegr yn rhagweld y bydd CDG y DU yn codi 7.25% yn 2021. Rhagwelodd y Banc hefyd gyfradd ddiweithdra o 4.75% yn 2021 (i lawr o 5% fel y rhagwelwyd ym mis Mai), cyn cwmpo i 4.25% yn 2022.

Yn eu Rhagolygon Economaidd y DU ar gyfer yr Haf, rhagwelodd y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (SCYEC) na fydd Cymru, ochr yn ochr â Gogledd Ddwyrain, Swydd Efrog a Humber a Gogledd Iwerddon, wedi gwella i lefelau cyn-bandemig

o GYG erbyn Ch4 2024. Rhagwelir y bydd GYG yng Nghymru yn Ch4 2024 4 0.5% yn is na lefel Ch4 2019.²¹ Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gan Gymru'r twf cyflogaeth mwyaf cadarn ymhlith y gweinyddiaethau datganoledig. Yn ôl SCYEC, rhagwelir y bydd cyflogaeth yng Nghymru wedi rhagori ar lefelau Ch4 2019 erbyn diwedd 2022. Mewn cyferbyniad, mae SCYEC yn rhagweld cyfradd ddiweithdra o 4.1% yng Nghymru yn 2020/21 (3.9% yn y DU), 4.9% yn 2021 / 22 (5.1% yn y DU), a 5.8% yn 2022/23 (5.3% yn y DU).

²¹ www.niesr.ac.uk/sites/default/files/publications/UK%20outlook%20Summer%202021_0.pdf

- Bu cynnydd mewn genedigaethau busnes a marwolaethau yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at Ch2 2021, er i enedigaethau busnes a marwolaethau ostwng yn ystod y chwarter i Ch2 2021.
- Mae gwell amodau busnes yn cael eu hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg diweddar ar gyfer Ch2 2021 o gynnydd yn nifer BBaCh y DU a Chymru sy'n bwriadu tyfu, tra bod Mynegeion Hyder Busnesau Bach y DU a Chymru wedi parhau'n gadarnhaol.
- Roedd ymadawiad y DU o'r UE yn rhwystr i dwf i un o bob pump o BBaCh yn y DU a Chymru. Yn ogystal, roedd mwy na chwech o bob deg busnes o Gymru yn wynebu costau ychwanegol ers diwedd cyfnod trosglwyddo'r UE.

Hyder cwmnïau bach yn parhau i fod yn gadarnhaol

Arhosodd Mynegai Busnesau Bach y DU²² yn gadarnhaol am yr ail chwarter yn olynol yn Ch2 2021. Yn dilyn y cwmp o -5 yn Ch2 2020 i -32 yn Ch3 2020 ac ymhellach i -49 yn Ch4 2020, fe adlamodd y Mynegai i +27 yn y chwarter i Ch1 2021 ond gostyngodd ychydig i +18 yn Ch2 2021.²³ Mae ailagor yr economi wedi cyfrannu at gynnydd mewn costau, gyda 53% o'r BBaCh a arolygwyd yn nodi eu bod wedi wynebu cynnydd yng nghostau gweithredu cyffredinol o gymharu â'r chwarter blaenorol. Y prif achosion a nodwyd dros y newid mewn costau busnes oedd mewnbynnau (dewiswyd y categori hwn gan 43% o'r ymatebwyr) a chostau llafur (a ddewiswyd gan 36% o'r ymatebwyr).

Mae mynegai hyder BBaCh y DU yn parhau i fod yn gadarnhaol ym mhob sector yn Ch2 2021

Y sectorau sydd wedi wynebu cyfyngiadau clo difrifol a chrebachiadau yn y galw a gafodd y twf chwarterol mwyaf trawiadol, sef lletygarwch (mynegai hyder o +64 o +15 yn Ch1 2021) a hamdden (+29 o +7).

²² Mynegai wedi'i bwysoli yw'r Mynegai Busnesau Bach o'r ymatebion i'r cwestiwn: 'O ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, tra'n anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r tri mis blaenorol?' Rhoddir y pwysidiadau canlynol i gyfran y cwmnïau sy'n adrodd 'llawer gwell': +2, ychydig yn well +1, tua'r un fath 0, ychydig yn waeth -1 ac yn waeth o lawer -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn "(FBB, 2020).

²³ FfBB (2021). Llais mynegai busnesau bach FfBB, Chwarter 2 2021. Ar gael yn: www.fsb.org.uk/static/eeb7a998-ca47-4b7f-98b4d48b144990c8/FSB-Voice-of-Small-Business-Index-Quarter-2-2021.pdf


Mae hyder BBaCh Cymru yn Ch2 2021 yn parhau i fod yn gadarnhaol ond yn ddigyfnewid.

Adroddodd FfBB fod hyder BBaCh yng Nghymru wedi aros yn ddigyfnewid yn Ch2 2021. Gwelodd Cymru hyder BBaCh yn adlamu

o -48 yn Ch4 2020, y pedwerydd isaf yn y DU, i diriogaeth gadarnhaol (+34) yn Ch1 2021 ac yn aros ar yr un lefel yn Ch2 2021.

Ffigur 4.

Mynegai Busnesau Bach, rhanbarthau'r DU, Ch3 2020 - Ch2 2021



Ffynhonnell: [Mynegai Llais Busnesau Bach FfBB Ch2 2021](#)


Roedd twf allbwn ar draws y sectorau cynhyrchu a gwasanaethau marchnad yn negyddol yn Ch1 2021.

Parhaodd allbwn yn y diwydiant adeiladu i wella yn Ch1 2021, tra bod gwasanaethau cynhyrchu a marchnad yn cofnodi twf negyddol. Mae Ffigur 5 yn dangos y symudiad chwarterol ym mynegeion Cymru o allbwn mewn gwasanaethau cynhyrchu, adeiladu a marchnad rhwng Ch1 2018 a Ch1 2021. Gostyngodd mynegai gwasanaethau'r farchnad ychydig o 96.8 yn Ch4 2020 i 96.3 yn Ch1 2021. Dirywiodd y mynegai cynhyrchu hefyd, gan ostwng o 96.9 yn Ch4 2020 i 91.1 yn Ch1 2021. Yn y sector

